OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *12 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 12 Mawrth 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A55 Trunk Road (Westbound Carriageway at Junction 17 (Conwy Morfa), Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2021* |
| *Coming into force* | *12 March 2021* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Westbound Carriageway at Junction 17 (Conwy Morfa), Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and it comes into force on 12 March 2021.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A55 Chester to Bangor trunk road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means the period commencing at 19:00 hours on 12 March 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Conwy.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Mawrth 2021



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 17 (Conwy Morfa), Conwy.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 9 March 2021



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CERBYTFFORDD TUA'R GORLLEWIN WRTH GYFFORDD 17 (MORFA CONWY), CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn i wneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy), Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17 (Morfa Conwy).

Y llwybr arall fydd ymadael â'r A55 ar y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17 ac ailymuno â'r A55 ar y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth yr un gyffordd. Bydd cerbydau sy'n 3 metr o led neu fwy yn cael cyfarwyddyd i barcio yn y gilfan tua'r gorllewin cyn Cyffordd 23 (Llanddulas).

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 12 Mawrth 2021 a disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 07:00 o'r gloch) o 12 – 15 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Efallai y bydd yn ofynnol cau'r gerbytffordd tua'r gorllewin am 24 awr y dydd ar ddyddiad diweddarach i gwblhau'r gwaith a dangosir rhain gan arwyddion rhybudd ymlaen llaw.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (WESTBOUND CARRIAGEWAY AT JUNCTION 17 (CONWY MORFA), CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 17 (Conwy Morfa), Conwy.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 17 (Conwy Morfa).

The alternative route is to leave the A55 via the westbound exit slip road at Junction 17 and rejoin the A55 via the westbound entry slip road at the same junction. Vehicles of or over 3 metres wide will be instructed to park in the westbound lay-by prior to Junction 23 (Llanddulas).

The Order comes into force on 12 March 2021 and the temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 07:00 hours) from 12 – 15 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Some 24-hour westbound carriageway closures may be required at a later date to complete the works and these will be indicated by advance warning signs.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Transport
Welsh Government